**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

18 Rhagfyr 2023

**Darparu prydau ysgol am ddim yn y gwyliau**

Annwyl Jeremy,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 1 Rhagfyr am y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn y gwyliau. Trafodwyd y llythyr yn ein cyfarfod ar 14 Rhagfyr.

Fel y nodasom yn ein llythyr gwreiddiol, dyddiedig 25 Hydref, rydym yn parhau'n bryderus bod y penderfyniad i roi'r gorau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol wedi'i wneud mor agos at wyliau haf 2023, gan effeithio o bosibl ar allu eraill, fel yr awdurdodau lleol neu elusennau, i wneud darpariaeth arall.

Er ein bod yn croesawu'r cynlluniau a amlinellwyd yn eich llythyr, gan gynnwys y cynllun Bwyd a Hwyl a Phrosiect Gwyliau Gwaith Chwarae, mae'n destun pryder mai dim ond pump o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru a oedd yn gallu parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim dros wyliau'r haf. Rydym yn deall y pwysau ariannol sylweddol y mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn eu hwynebu, a bod yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Wrth i'r argyfwng costau byw ddal i effeithio'n ddrwg ar deuluoedd, fodd bynnag, rydym yn pryderu na ddylai plant a phobl ifanc ysgwyddo baich yr effeithiau hynny. Mae hwn yn debygol o fod yn fater y byddwn yn ei drafod yn ystod ein gwaith craffu ar y gyllideb yn y dyfodol agos.

Nodwn adroddiad diweddar Grŵp Arbenigol Cymru ar gostau byw, a oedd yn dweud mai un o'r camau a fyddai'n helpu yn y modd mwyaf effeithiol gyda'r argyfwng costau byw oedd:

> *"...targedu ymyriadau ychwanegol tuag at y rhai sy'n profi'r caledi mwyaf."*

Rydym yn pryderu, heb ddigon o ddata ar gyfranogiad mewn cynlluniau eraill, mae'n anodd gwybod a yw'r cynlluniau eraill hyn yn diwallu'r anghenion yr oedd y rhaglen fwy cynhwysfawr yn rhoi sylw iddynt.

Nodwn fod y Grŵp Arbenigol hefyd yn croesawu'r rhaglen Bwyd a Hwyl, a'i fod wedi galw am ymestyn y rhaglen hon i gynnwys cyfnodau gwyliau eraill yn 2023-24.[1]

1. A allwch egluro a ydych yn bwriadu ariannu'r cynllun Bwyd a Hwyl mewn cyfnodau gwyliau ysgol eraill dros 2023/24?

2. Yn eich llythyr, gwnaethoch nodi y byddai data ar lefelau cyfranogiad Bwyd a Hwyl ar gael "yn ddiweddarach yn yr hydref". A allwch egluro pryd y bydd y data hwn ar gael, ac a allwch ymrwymo i'w rhoi i'r Pwyllgor? A fydd y data hwn yn rhoi dadansoddiad o ddemograffeg y plant a'r bobl ifanc a gafodd fudd o'r cynllun hwn?

3. Rydym yn nodi eich sylwadau yn y llythyr nad yw Llywodraeth Cymru yn cadw data ar ddarpariaeth nad yw'n ei hariannu. Sut felly y gall Llywodraeth Cymru werthuso i ba raddau y mae cynlluniau disodli yn diwallu anghenion a oedd yn cael eu diwallu'n flaenorol gan y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau? Heb y data hwn, sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyflawni ei hymrwymiad nad oes unrhyw blentyn yn llwglyd, a bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio fel y caiff yr effaith orau bosibl?

Gan fod gennym yr un diddordeb yn y maes, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 29 Ionawr 2024.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Cc: Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

[1] Llywodraeth Cymru, Adroddiad Grŵp Arbenigol Cymru ar yr argyfwng costau byw, 26 Medi 2023